

SIR GAERFYRDDIN

Nodiadau Natur

Partneriaeth Natur
SIR GÂR • CARMARTHENSHIRE
Nature Partnership




EBRILL-MEHEFIN 2024

Mae gan Sir Gaerfyrddin gyfoeth o fywyd gwyllt. Mae'r 'Nodiadau Natur' hyn yn nodi rhai o'r uchafbwyntiau er mwyn ein hannog ni i gyd i fwrw golwg fanylach o'n hamgylch ni – mae hyd yn oed y pethau mwyaf cyffredin yn arbennig. Ydych chi wedi gweld rhywbeth diddorol? Beth am anfon llun atom?



I gael rhagor o wybodaeth am natur yn y sir, darllenwch ein Cynllun Adfer Natur:
sirgar.llyw.cymru/bioamrywiaeth



Anfonwch eich lluniau at: Bioamrywiaeth@sirgar.gov.uk



Chwilen y Gwaedlif

Pan fydd dan fygythiad, mae chwilen y gwaedlif (*Timarcha tenebricosa*), nad yw'n hedfan, yn secretu hylif gwaed-goch o'i cheg. Mae'r hylif sydd â blas cas yn ddigon i gael gwared ar ysglyfaethwyr. Gellir dod o hyd i'r chwilen hon ar laswelltir a rhostir, ac ar hyd gwrychoedd ac fe'i ceir yn aml yn ymlwybro'n araf ar hyd llwybrau.

Mae chwilog sy'n oedolion yn bwyta dail Briwydden Felen a phlanhigion tebyg, a gellir gweld y larfa yn hongian o'r rhywogaethau hyn. Mae'r rhain ar eu mwyaf prysur gyda'r nos gan amlaf.



Lindys Teigr ôl-adain Goch

Mae'r Lindys Teigr ôl-adain Goch (*Callimorpha dominula*) yn deor ddiwedd yr haf. Maent yn bwyta amrywiaeth o blanhigion, gan gynnwys Llysiau'r Cwlwm Cyffredin, Llysiau'r Gwrid Gwyrdd a Danadl Poethion Cyffredin. Wrth dreulio'r gaeaf fel lindys sydd wedi tyfu'n rhannol, maen nhw'n ymddangos eto ym mis Mawrth i barhau i fwyta - dyma beth ddaethom o hyd iddo yma – lindys yn bwyta dail Llysiau'r Cwlwm. Pan fyddant yn llawn eu bol erbyn diwedd y gwanwyn, maent yn chwileru mewn cocŵn sidanaidd ar y ddaear.

Mae'r lindys hwn yn ddu gyda thwffiau o wrych du a gwyn. Mae ganddyn nhw linellau melyn a dotiau gwyn ar hyd y corff.

Gellir gweld y gwyfyn oedolion rhwng Mai a Gorffennaf. Maent yn hoffi glaswelltiroedd llaith, cynefinoedd arfordirol ac, yn achlysurol, gerddi. Mae cofnodion ar ei gyfer ledled y sir felly cadwch lygad allan.



***Cuckoo-spit* – Llyffant y Gwair Cyffredin**

Ar yr adeg hon o'r flwyddyn mae'n anodd osgoi'r màs o swigod (*Cuckoo-spit*) sy'n ymddangos ar goesynnau planhigion ym mhobman. Dyma'r gorchudd amddiffynnol a gynhyrchir gan nymffod melyn-wyrdd o Lyffant y Gwair Cyffredin bach (*Philaenus spumarius*). Maent yn creu swigod o sudd y planhigyn y mae arno.

Gall llyffantod y gwair sy'n oedolion amrywio'n fawr o ran lliw – gelwir hyn yn polymorffiaeth. Maent yn eang ac yn gyffredin yn y sir.



Eglyn Cyferbynddail

Yn y gwanwyn gellir dod o hyd i'r Eglyn Cyferbynddail (*Chrysosplenium oppositifolium*) mewn tusw llachar o flodau euraidd-wyrdd mewn cynefinoedd llaith neu wlyb, e.e. ar ymyl ffrydiau cysgodol neu mewn coetiroedd gwlyb.

Fel yr awgryma ei enw, mae ganddo ddail gwyrdd crwn gyda blodau bach. Mae petalau'r blodau, mewn gwirionedd yn sepalau euraidd a dail melynauidd. Mae Sepals yn ddail wedi'u haddasu sy'n amddiffyn y blodyn sy'n datblygu yn ei blagur.



Morgrug Melyn

Mae'r Morgrugyn Melyn (*Lasius flavus*) yn adnabyddus am greu twmpathau morgrug mewn cynefinoedd glaswelltir. Maent yn adeiladu cremen bridd uwchben y nyth (sy'n gallu ymestyn metr o dan y ddaear) i helpu i reoleiddio tymheredd a lleithder. Fel pob morgrugyn, mae'r Morgrug Melyn yn ffurfio cytreffi; mae'r gweithwyr yn weithgar dan ddaear yn bennaf - oni bai eich bod yn tarfu ar y nyth pan allwch eu gweld yn dod i'r amlwg i amddiffyn eu nythfa. Yn ystod yr haf, mae morgrug sy'n oedolion yn paru, a'r benywod yn gwasgaru i ffurfio cytreffi newydd.



Conau Sbriws Gwryw

Yn gynnar yn y gwanwyn, cadwch lygad am flodau (conau) gwryw a benyw ar goed conwydd. Yma mae'r conau gwryw anaeddfed pinc yn hongian ar ddiwedd canghennau. Mae'r conau hyn yn chwyddo gyda phail yn y pen draw ac mae'r awel ysgafnaf yn rhyddhau cwmwl o baill melyn i'r awyr.



Glöyn Byw Gwyn â gwythiennau Gwyrddion

Mae'r glöyn gwyn â gwythiennau gwyrddion (*Pieris napi*) yn glöyn byw eithaf bychan sydd yn yr awyr rhwng Ebrill a Hydref. Mae'n hoff iawn o ardaloedd llaith gyda llystyfiant ffrwythlon a gellir dod o hyd iddo mewn amrywiaeth eang o gynefinoedd, gan gynnwys gwrychoedd, rhodfeydd mewn coetiroedd a dolydd, yn ogystal â thir fferm, gerddi a pharciau. Mae berwr dŵr yn blanhigyn cynnal cyffredin iawn i'r glöyn byw. Mae planhigion bwyd y lindys yn aelodau o'r teulu bresych, gan gynnwys Llaeth y Gaseg a Jac y Gwrych - diolch byth nid yw ein *brassicas* a dyfir yn yr ardd.



Gwaswyfyn

Efallai eich bod wedi gweld gweoedd trwchus fel y rhain gyda llwyth o lindys arnynt.

Yn aml ar Ddraenen ddu a Draenen wen, gellir gweld y gwaswyfyn yn eistedd yn ei we, os yw'n cael llonydd.

Mae eu cyrff blewog yn helpu i'w hamddiffyn rhag ysglyfaethwyr. Pan fyddant wedi cyrraedd eu llawn twf, maen nhw'n gwasgaru i ddod o hyd i le addas yn isel ymhlith planhigion i droelli cocŵn a chwileru.

Mae'r gwyfynod sy'n oedolion yn hedfan mewn un genhedlaeth o ddiwedd Mehefin i ddiwedd Awst ac yn cael eu denu i olau.

Mae'r benywod yn dodwy 'band' o wyau o amgylch brigau y planhigyn bwyd larfau a thros y gaeaf cyn deor ddechrau Ebrill.



Chwilen Gorniog Werdd

Mae gan chwilen gorniog werdd wryw (*Adela reaumurella*) antenau hir sy'n lled wyn, a blaenadenydd efydd. Mae'r gwyfynod yn hedfan yn ystod y dydd o fis Ebrill i fis Mehefin, weithiau mewn heidiau mewn ardaloedd agored fel llennyrch. Os yw benyw yn hedfan trwy'r haid, mae'n cael ei dal gan wryw ac maent yn paru wrth hedfan. Mae'r lindys yn byw ymhlith dail colledig coed bedw a choed derw ac yn bwydo ar olion dail. Maen nhw'n amddiffyn eu hunain mewn strwythur brown hirgul o ddarnau bach o ddail wedi cwmpo. Yma maent yn chwileru y gwanwyn canlynol gan gychwyn y cylch eto.



Crafnod y Geifr

Ym mis Ebrill a mis Mai, mae ein coetiroedd hynafol yn llawn blodau gwyn, serenog ac arogl Crafnod y Geifr neu Arllen Gwyllt (*Allium ursinum*). Gall miliynau o fylbiau mewn un coetir greu carpedi trawiadol o'r planhigyn.

Mae treulio'r rhan fwyaf o'r flwyddyn fel bwlb sy'n blodeuo'n gynnar yn caniatáu iddo wneud y gorau o olau'r haul sy'n cyrraedd llawr y coetir cyn i'r canopi fynd yn rhy drwchus. Gall yr arogl garleg cryf ddenu digon o bryfed peillio, gan gynnwys pryfed hofran, glöynnod byw a chwilod hirgorn.

Mae ail hanner yr enw Lladin, *ursinum*, yn cyfeirio at y ffaith fod eirth brown wrth eu bodd yn bwyta'r bwlb. Arweiniodd hyn hefyd at ddau o'i enwau cyffredin – *Bear's Leek* a *Bear Garlic*.



Morfa heli

Mae arfordir Sir Gaerfyrddin a Chilfach Tywyn, yn cynnal yr ail ardal barhaus fwyaf o forfa heli yn y DU, dim ond y Wash ar arfordir dwyreiniol Lloegr sydd ag ardal fwy. Mae aberoedd Tywi, Taf a Gwendraeth hefyd â llawer iawn o forfa heli.

Mae morfeydd heli yn darparu meithrinfeydd ar gyfer pysgod, ac adar gwyllt a rhydwyr. Gall planhigion arbenigol ymddangos yn gyflym ar forfa heli newydd ac fe'u dilynir gan gyfres o rywogaethau eraill, gan helpu i greu cynefin anhygoel.

Mae morfa heli yn gweithredu fel byffer llifogydd naturiol, gan leihau uchder tonnau ac egni a gludir gan donnau.



Corynnod bychain

Copyn y Groes (*Araneus diadematus*) yw'r bêl hon o bryfed melyn bach mewn gwe glaswelltir, sy'n gwasgaru pan aflonyddir arnynt.

Ar ddiwedd yr haf neu ddechrau'r hydref, mae Copyn y Groes yn dodwy o dri i wyth cant o wyau melyn y mae'n eu smentio gyda'i gilydd a'u gorchuddio mewn haen drwchus o sidan melyn bras a detritws. Pan ddaw'r gwanwyn y flwyddyn nesaf, daw bwndeli o gorynnod melyn bach i'r amlwg. Maen nhw'n aros gyda'i gilydd nes eu bod nhw wedi bwrw croen a thyfu'n ddigon mawr i fod yn annibynnol.



Plu'r Gweunydd

Ar ddiwrnod braf yn ein hucheldir mae Plu'r Gweunydd (*Eriophorum angustifolium*) yn chwythu yn yr awel ac yn gallu trawsnewid ardaloedd o rostir corsiog.

Hesg (dail siâp v) yn hytrach na glaswellt, mae'r planhigyn yn cael ei beillio gan y gwynt.

Defnyddiwyd Plu'r Gweunydd fel deunydd crai ar gyfer tecstilau yng nghanolbarth Ewrop yn y 18fed a'r 19eg ganrif.

Fel Migwyn (*Sphagnum*), mae Plu'r Gweunydd yn rhywogaeth allweddol o ran ffurfio mawn.



Dechrau'r Haf



Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin

